Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg
10 Mehefin 2015
Ystafell Gynadledda, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Yn bresennol

Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Gâr
Dai Baker	Llywodraeth Cymru
Cynghorydd Ryan Bartlett	Cyngor Sir Gâr
Aled Davies	Canolfan Cymraeg i Oedolion
Owain Glenister	Menter Bro Dinefwr
Bethan James	Cyngor Sir Gâr
Meinir James	Dyfodol i'r Iaith
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Lowri Morgans	Coleg Sir Gâr
Lowri Morris	Urdd Gobaith Cymru
Dewi Snelson	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cynghorydd Mair Stephens	Cyngor Sir Gâr
Eirios Thomas	Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr

Ymddiheuriadau

Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru
Nerys Burton	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Huw Evans	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Gwilym Dyfri-Jones	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Gwyn Elfyn Jones	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Meirion Jones	Menter Gorllewin Sir Gâr
Llinos Evans	Cyngor Sir Gâr
Owain Gruffydd	Menter Bro Dinefwr
Euros Owen	Menter Bro Dinefwr
Ruth Morgan	Clybiau Gwawr
Wyn Thomas	Dyfodol i'r Iaith
David Williams	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

1.	**Croeso** Cytunodd y Cynghorydd Mair Stephens i gadeirio yn dilyn derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Meirion Jones. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mair Stephens.	
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf 11.3.15** Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015 yn gofnod cywir.	
3.	**Taflenni hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau** Soniwyd bod y taflenni busnes wedi cael eu rhoi at ei gilydd yn dilyn derbyn sylwadau yn y cyfarfod diwethaf. Bydd y taflenni yn cael eu dylunio, a'u gosod ar wefan y Cyngor a bydd y dolenni yn cael eu hanfon ar e-bost at aelodau'r Fforwm ar gyfer hyrwyddo'r pecyn. Tynnwyd sylw at gais llwyddiannus a wnaed o dan arweiniad y Bartneriaeth	

	Ddysgu Ranbarthol at gronfa Bwrw 'Mlaen Llywodraeth Cymru a fydd yn gweithio gyda busnesau, ysgolion a cholegau'r sir. Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith o fynd o amgylch busnesau tref Caerfyrddin fel rhan o waith Canolfan Yr Atom a pharatoi at ddyfodiad S4C. Cyfeiriodd BJ at wahoddiad oddi wrth Gwilym Dyfri Jones i gynrychiolwyr partneriaid i gyfarfod yn Yr Atom am 7 o'r gloch nos Fawrth 16 Mehefin. Nodwyd bod y cyfarfod hwn ar gyfer partneriaid a darpar bartneriaid y Ganolfan newydd a bydd pedair noson/bore agored yn yr Atom ar ddiwedd Mehefin ac ym mis Gorffennaf lle bydd cyfle i drigolion y dref ymweld â'r Ganolfan. Gofynnwyd i'r rhai hynny a oedd yn bwriadu mynychu i gadarnhau gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.	
4.	**Trafodaeth am yr ardaloedd blaenoriaeth** **Rhydaman** Dywedodd OG eu bod nhw wedi dechrau bwydo gwybodaeth i dabl sy'n dilyn fformat targedau Llywodraeth Cymru gan gynnwys gwybodaeth oddi wrth bartneriaid sy'n gweithio yn yr ardal. Darparwyd rhestr o ddigwyddiadau a fydd yn digwydd dros y flwyddyn sy'n cynnwys 4 sesiwn ymwybyddiaeth iaith i rieni ifanc neu ddarpar rieni, 2 sesiwn 'Y Ffordd Ymlaen' i hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog, sesiynau sblash, sesiynau gemau bwrdd mewn bore coffi gyda sawl caffi o amgylch tref Rhydaman yn cynnal y boreau coffi. Soniwyd am y gwaith dwys yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Rhydaman. Nodwyd bod angen gweithio gyda'r Siambr gan eu bod nhw'n un o brif drefnwyr digwyddiadau'r ardal er mwyn eu cynorthwyo i gymreigio'r digwyddiadau a marchnata popeth yn ddwyieithog. Cyfeiriwyd at y gobaith o gynyddu targed Clwb Ieuenctid Rhydaman o 12 person ifanc i 16. Bydd y Fenter yn hyrwyddo gwyliau Cymraeg megis diwrnod Owain Glyndŵr, Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Rhoddwyd cyfle i bartneriaid i ychwanegu neu roi sylwadau sut a beth allant gyfrannu at y gwaith yn Rhydaman. Soniwyd am ddiwrnod 'Shw'mae Su'mae?' gan ofyn a fyddai'r Fforwm yn gallu cydlynu a gweithredu digwyddiad. **Llanfihangel-ar-arth** Soniwyd bod pwyllgor wedi cael ei sefydlu yn yr ardal a'u bod nhw'n edrych ar gyfleoedd newydd. Mae'r pwyllgor wedi gofyn beth yw pwrpas y grŵp a sut byddwn ni'n mesur effaith. Nodwyd bod y Llywodraeth yn symud tuag at dargedau hirdymor a'r angen i ddangos tystiolaeth a mesur effaith dros gyfnod hirach. Soniwyd am bwysigrwydd perchnogaeth partneriaid a chymunedau. Soniwyd am declyn mesur effaith sydd wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a Mentrau Iaith Cymru (MIC) ond nid yw ar gael i ddosbarthu eto. Nodwyd bod Menter Môn wedi cytuno i rannu sut maen nhw'n mesur effaith. Bydd Dewi yn cysylltu ag Emily i ofyn pryd bydd teclyn y Llywodraeth a MIC yn barod i'w rannu. Cyfeiriwyd at ddyfodol y Cyfrifiad a bydd Dai yn anfon gwybodaeth bellach pan	**DS** **DB**

	fydd ar gael. Soniodd OG fod y Fenter wedi creu fideo o berson ifanc a oedd yn ddihyder a braidd byth yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Yn dilyn cyfnod yn y clwb ieuenctid fe wnaeth y Fenter greu fideo arall o'r un person lle'r oedd yn cydnabod bod y clwb ieuenctid wedi rhoi hyder iddo ddefnyddio'r Gymraeg. Dywedwyd bod angen marchnata digwyddiadau i'r partneriaid er mwyn bod y partneriaid eraill yn gallu trosglwyddo'r neges i'w haelodau. Nodwyd bod yr Urdd wedi sefydlu adran yn ardal Llanfihangel-ar-arth a bod y Fenter wedi cynnal cyfarfod gyda Chanolfan Deuluol Pencader. Mae Menter Gorllewin Sir Gâr wedi anfon holiaduron i grwpiau'r ardal, corau ayyb i asesu beth sy'n digwydd yn yr ardal. **Llandeilo a Llanymddyfri** Mae Pwyllgorau Apêl yr ardal wedi ail ddechrau ac maent yn dilyn fformat Pwerdy Dyffryn Aman. Mae'r Fenter wedi adnabod blaenoriaethau ar gyfer yr ardal sy'n cynnwys codi hyder a gwella rhuglder rhieni a bod angen cydweithio gyda phartner a bod YMCA yn bosibilrwydd. Soniwyd bod adran newydd gyda'r Urdd yn Llanymddyfri a bod y Fenter wedi clywed bod niferoedd Clwb Llandeilo (a gomisiynir gan y Cyngor Sir) yn isel iawn. Gofynnwyd am gopïau o'r cynlluniau gweithredu ardaloedd i rannu gyda phartneriaid yn y gobaith bydd modd i ni dderbyn adroddiad oddi wrth y partneriaid eraill am beth yn ychwanegol maent yn gwneud yn yr ardaloedd. Cytunwyd i drafod mesur effaith yn y cyfarfod nesaf a bydd Dai Baker yn casglu enghreifftiau oddi wrth Fenter Môn. Nodwyd ei bod hi'n bwysig i drydar digwyddiadau i gyfrifon Twitter y partneriaid ac i'r partneriaid i ail drydar y negeseuon er mwyn cyrraedd eu dilynwyr nhw hefyd.	**Pawb** **DB**
5.	**Trafod yr argymhellion** • Argymhelliad 1: Hybu datblygiad Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau Trafodwyd argymhelliad 1 a nodwyd bod Canolfan Yr Atom yn bwriadu cael Pwyllgor Llywio. Soniwyd hefyd am gynllun y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir ar gyfer adfywio Tref Caerfyrddin. Gofynnwyd a fyddai modd i swyddog o Adran Adfywio'r Cyngor i ddod i gyflwyno'r cynllun yn y cyfarfod nesaf ynghyd â chynrychiolydd o'r Cyngor Tref. Cyfeiriwyd at Yr Egin a bod PCYDDS wedi ennill tendr yr endid cenedlaethol ar gyfer Cymraeg i Oedolion. • Argymhelliad 4: Sicrhau y crëir ethos a rhaglenni	**BJ**

	hybu defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg mewn cydweithrediad â'r ysgolion a'u cymunedau. Soniwyd bod yr Adran Addysg yn gweithio ar Siarter Sir Gâr. Cytunwyd i ofyn i gynrychiolydd o'r Adran ddod i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad am y Siarter a nodwyd bod mewnbwn y partneriaid cymunedol yn allweddol ar gyfer y Siarter.	**BJ**
6.	**Unrhyw Fater Arall** ● **Diweddariad Cyngor Sir Gâr** Soniwyd bod Gwilym Dyfri Jones a Garffild Lloyd wedi dod i Banel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr iaith Gymraeg i gyflwyno'r diweddaraf i'r Cynghorwyr. Nodwyd hefyd bod Dylan Owen, Rheolwr Rhanbarth o wasanaeth Gofal Cynradd, Cymunedol a Chymdeithasol yr Adran Cymunedau i gyflwyno gwaith y Cyngor ar Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau'. Dywedwyd bod Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor wedi cael ei derbyn gan y Panel Ymgynghorol a bydd yn mynd trwy'r broses wleidyddol yn yr Hydref. Cyfeiriwyd at y Safonau a'r broses ymgynghori bydd y Comisiynydd yn cynnal ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft rhwng 22 Mehefin a 20 Gorffennaf. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Comisiynydd yn gosod yr hysbysiad cydymffurfio ar y Cyngor ym mis Medi a bydd angen i'r Cyngor baratoi Strategaethau Cydymffurfio erbyn mis Mawrth 2016. Cyfeiriwyd at wefan newydd y Cyngor a nodwyd bod y Cyngor yn croesawu sylwadau ar y strwythur newydd. Cadarnhawyd bod yr wybodaeth yn hollol ddwyieithog. Soniwyd am y newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor ers cyfarfod diwethaf y Fforwm gyda'r newid yn dod â Phlaid Cymru a'r grŵp Annibynnol i rym gyda'r Cynghorydd Emlyn Dole yn Arweinydd. Nododd GA byddai cyhoeddiad wythnos nesaf gyda mwy o wybodaeth am Ad-drefnu Llywodraeth Leol. Gofynnwyd i nodi 'Diweddariad Cyngor Sir Gâr' ar agenda'r cyfarfod nesaf.	**BJ**
7.	**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf yn Yr Atom gyda'r dyddiad i'w benderfynu yn ôl argaeledd y Ganolfan. Diolchwyd i bawb am ddod i'r cyfarfod.	